**Beirniadaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.6 ac iau [311]**

**Beirniad: Einion Dafydd**

Diolch i'r cyfansoddwyr ifanc am uwchlwytho amrywiaeth o ddarnau i'r gystadleuaeth hon. Rhaid eu canmol yn gyffredinol am greu darnau diddorol a dychmygus. Dydy cyfansoddi ddim yn hawdd gan fod llawer o bethau i feddwl amdanynt, er enghraifft pa gordiau i'w defnyddio, creu alaw, cofio am bwysigrwydd dynameg a rhythmau diddorol. Yna, edrych ar adeiledd y darn, hynny yw – beth sy'n digwydd ble; ydy'r darn yn arwain y gwrandawr ar daith gan gyrraedd diweddglo effeithiol?

Roedd cyfansoddiad ArpejAur yn dechrau'n addawol a chafwyd deunydd newydd tua 1'40 i mewn i'r cyfansoddiad cyn y *morendo* terfynol. Hen dro na ddefnyddiwyd y ffigwr tripledi yn gynharach a'i ddatblygu; roedd yr agoriad yn dangos cryn botensial i fod yn gyfansoddiad effeithiol.

Darn i biano ydy cyfansoddiad CaruCwn. Mae'r alaw'n cael ei threfnu'n i gymalau cytbwys ac felly'n hawdd i'w chofio eto i gyd mae'r C ar ddiwedd pob llinell yn gwrthdaro efo'r cord G. Y tro nesaf efallai y gellid amrywio rhan llaw chwith y piano.

Darn piano a gafwyd gan Cerys Rhiwledyn hefyd. Mae'n ddarn dychmygus ac mae'r alaw'n cael ei datblygu effeithiol. Yma eto, tybed a ellid fod wedi amrywio'r cordiau yn hwyrach yn y darn.

Cafwyd sgôr i ensemble gan Ddraig20918 ac mae'r gwead yn cael ei amrywio'n effeithiol ond efo barau tenau efo llawer o fylchau. Efallai y gallai'r cyfansoddwr ailedrych ar y cordiau a sicrhau eu bod yn cydfynd yn effeithiol gyda'r alaw.

Yna cafwyd darn piano arall, y tro hwn gan Derwydd. Dyma ddarn hir ond heb lawer o alaw fyddai'n gwneud y darn yn haws i'w ddilyn. Mae'r rhythmau'n gymhleth iawn ar adegau (gweler bar 363 ar dudalen 9).

Mae gan ddarn Ronaldo lawer o bethau diddorol yn digwydd ynddo. Mae'r sgôr yn cynnwys offeryniaeth ddifyr ond byddai ddarn mwy effeithiol o anelu at well cydlyniad o syniadau a harmonïau.

Darn bywiog i'r piano ydy gwaith Socs sy'n atgoffa'r gwrandawr o waith y cyfansoddwr Hwngaraidd, Béla Bartók. Roedd y patrwm *ostinato* yn dda yn y llaw chwith a'r tameidiau o alawon bachog a chyferbyniol yn y llaw dde. Eto i gyd daeth y darn i ben braidd yn ddisymwth.

Cafwyd cân i soprano gyda chyfeiliant piano gan Isla. Mae'r copi'n cynnwys y geiriau wedi'u nodi wrth linell y llais ac mae'r alaw'n syml a chofiadwy. Y tro nesaf, gallai Isla ystyried amrywio gwead cordiau piano o ran defnyddio arpeggio neu rythmau amrywiol o dro i dro. Wedi dweud hynny, mae'r darn yn llwyddiannus wrth gyraedd diweddglo priodol.

Esbonia'r cystadleuydd Llewelyn the Great fod y darn 'An Féasta' yn golygu gwledd yn y Gaeleg. Mae dylanwad cerddoriaeth gynnar yma – o'r unfed ganrif ar bymtheg. Ceir llawer o syniadau gafaelgar yma a tua hanner munud i mewn i'r darn ceir cordiau cromatig hynod ddiddorol. Biti mai dim ond unwaith y clywn ni hyn. Y tro nesaf, tybed a fyddai'r cyfansoddwr yn ystyried cynnwys adrannau cyferbyniol eraill. Eleni mae'n derbyn y drydedd wobr.

Atgofion Melys ydy teitl darn piano Nel. Dyma un o'r darnau gorau sy'n dangos dawn y cyfansoddwr wrth gyflwyno a datblygu syniadau cerddorol. Mae'n defnyddio ystod y piano'n

llawn ac mae'r adran sy'n dilyn y *rallentando* (2'15) lle daw'r alaw yn ôl mewn cwmpas uchel yn ddiweddglo effeithiol dros ben. Cyfansoddiad da iawn sy'n deilwng o'r ail wobr.

Mae'r cyfansoddiadau gorau yn y gystadleuaeth hon yn awgrymu bod gennym gyfansoddwyr ifanc medrus iawn yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at glywed eu gwaith yn y dyfodol. Y cyfansoddiad gorau eleni yn fy marn i ydy'r ddeuawd telyn gan y cyfansoddwr â'r ffugenw 375. Dyma ddarn sy'n llwyddo i ddangos dawn y cyfansoddwr i gyfuno'r elfennau cerddorol i gyd. Ceir amrywiaeth o gordiau a gweadau sy'n gweddu'n berffaith i'r offeryn. Hefyd mae gofyn i'r telynorion ddefnyddio technegau perfformio estynedig – harmonics, crafu ewinedd a sleid pedal. Rydw i'n hoff iawn o ddefnydd y cyfansoddwr o ddistawrwydd dramatig a'r cyfan wedi ei drefnu'n ofalus sy'n ein harwain at ddiweddglo hynod o effeithiol. Mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf.

---

Dyfarniad terfynol cystadleuaeth 311 - Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.6 ac iau

1. 375
2. Nel
3. Llewelyn the Great